coram pacey

Lledrith Gwarchod Plant

Wythnos Lledrith Nadoligaidd

7-13 Rhagfyr 2026

#lledrithgwarchodplant

Rhannu lledrith gwarchod plant yn y gymuned

Ymunwch â Coram PACEY ar gyfer wythnos o fentrau Nadoligaidd a syniadau i roi'n ôl i'r gymuned, gan ddangos pam fod lleoliadau gwarchod plant mor hudolus.

Mae Lledrith Gwarchod Plant yn

Mae hyn fwyaf amlwg yn yr effaith y mae gwarchodwyr plant a'u lleoliadau'n ei chael yn eu cymunedau.

O ymweliadau trawsnewidiol â chartrefi gofal i ddigwyddiadau codi arian uchelgeisiol i elusennau, mae gwarchodwyr plant a'u lleoliadau yn rhoi yn ôl i'w cymunedau mewn llwyth o ffyrdd unigryw a rhyfeddol.

Yn ystod tymor y Nadolig eleni, rydyn ni eisiau tynnu sylw at yr ymdrechion hyn a'r proffesiwn drwy ddod â lleoliadau gwarchod plant at ei gilydd am wythnos o roi'n ôl, talu ymlaen a dathlu yn eich cymunedau.

Allwch chi feddwl am droad Nadoligaidd i'ch mentrau cymunedol arferol? Oes gennych chi syniad newydd y gallech ei lansio yn ystod yr wythnos Nadoligaidd hon?

Dyma rai o'r ffyrdd y gallech ddathlu Wythnos Lledrith Nadoligaidd:

Siwgr a Sbeis
Cynhaliwch werthiant cacennau Nadoligaidd blasus i godi arian ar gyfer yr elusen o'ch dewis.

Llawenydd i'r Byd
Perfformiwch garolau'n llawen yn eich cartref gofal lleol.

Cerdded drwy'r Nadolig Law yn Llaw
Casglwch sbwriel ar hyd eich taith gerdded arferol.

Ail-lawenydd
Gofynnwch i'ch teuluoedd ddod i mewn â dillad neu addurniadau Nadoligaidd diangen i'w rhoi i'ch siop elusen leol.

Anfonwch lawenydd (a'ch rhestr o ddymuniadau
Anfonwch gerdyn Nadolig o'ch lleoliad i'ch AS lleol, ynghyd â rhestr o'r ffyrdd y mae angen eu cefnogaeth arnoch chi, eich lleoliad, a'ch cymuned.

Amser Cystadlu

Rydyn ni eisiau gwybod sut mae'ch lleoliad yn cymryd rhan yn Wythnos Lledrith Nadoligaidd ac yn ei droi'n gystadleuaeth!

Drwy gydol yr wythnos, byddwn yn chwilio am leoliadau sydd wir wedi dangos lledrith gwarchod plant o fewn eu cymuned.

HOPE is all you need

Enillydd

£250 Gift voucher

Bydd y lleoliad buddugol yn derbyn hamper mawr Nadoligaidd yn llawn danteithion, teganau ac offer ar gyfer y lleoliad, yn ogystal â thystysgrif wedi'i fframio a thaleb gwerth **£250** i'w gwario gyda'n partneriaid, HOPE.

Ail le

£150 Gift voucher

Bydd yr ail leoliad yn derbyn hamper Nadoligaidd yn llawn danteithion, teganau ac offer ar gyfer y lleoliad, yn ogystal â thystysgrif wedi'i fframio a thaleb gwerth **£150** i'w gwario gyda'n partneriaid, HOPE.

Sut i gymryd rhan

Cyflwynwch eich lluniau a chrynodeb o'ch gweithgareddau, gan gynnwys yr effaith. Gallwch wneud hyn drwy'n gwefan gan ddefnyddio'r cod QR isod.

Paratowch

Dysgwch ragor am yr ymgyrch Wythnos Lledrith Nadoligaidd a sut i gymryd rhan yn y gystadleuaeth drwy fynd i'n gwefan.

Cychwynnwch arni

I'ch helpu i gychwyn arni, archwiliwch yr holl gynhyrchion Lledrith Gwarchod Plant newydd yn siop Coram PACEY.

O siacedi llachar ar gyfer eich lleoliad, i gardiau Nadolig i'ch ffrindiau a chefnogwyr, ychwanegwch ychydig o ledrith yn ystod yr Ŵyl.

HEFYD tan 31 Rhagfyr 2026, pan fyddwch yn gwario £30 neu fwy yn ein siop (heb gynnwys ffioedd anfon) byddwch yn derbyn pecyn o 5 cerdyn Nadolig Yn RHAD AC AM DDIM.









Mae Coram PACEY yn rhan o The Coram Group. Rhif Elusen 312278.
Swyddfa gofrestredig: 41 Brunswick Square, Llundain WC1N 1AZ
Ffôn 029 20 351 407 © 2025 Coram PACEY

corampacey.org.uk
support@corampacey.org.uk